**PWYLLGOR MATERION EWROPEAIDD**

**Dyddiad: 25 Tachwedd 1999**

**Amser: 9.30am**

**Lleoliad: Ystafell Bwyllgora 1, Aeilad Y Cynulliad Cenedlaethol**

**Teitl: Canolfan Ewropeaidd Cymru**

**Pwrpas**

1. Hysbysu aelodau ynglþn â'r sefyllfa ddiweddaraf ynghylch aelodaeth arfaethedig y Cynulliad yng Nghanolfan Ewropeaidd Cymru.

**Argymhelliad**

2. Gwahoddir Aelodau'r Pwyllgor i nodi'r trefniadau a argymhellir.

**Cefndir**

3. Yn ei gyfarfod ar 14 Hydref derbyniodd y Pwyllgor hwn bapur, a chyflwyniad gan Gadeirydd a Chyfarwyddwr Canolfan Ewropeaidd Cymru. Cefnogodd Aelodau yr egwyddor y dylai'r Cynulliad fod yn aelod yng Nghanolfan Ewropeaidd Cymru.

**Cynnig**

4. Ynghlwm yn Atodiad A mae papur sy'n amlinellu'r hyn y mae ar y Cynulliad ei angen gan Ganolfan Ewropeaidd Cymru. Ynghlwm yn Atodiad B mae papur a ystyriwyd gan Fwrdd Canolfan Ewropeaidd Cymru yn dilyn trafodaethau rhwng y Cynulliad a Chanolfan Ewropeaidd Cymru.

5. Mae gofynion y Cynulliad gan Ganolfan Ewropeaidd Cymru'n canolbwyntio ar

dri mater:

- Cyngor polisi
- Cefnogaeth ar lobïo

- Gwell proffil i Gymru yn Ewrop.

6. Caiff y gwasanaethau a ddarperir gan Ganolfan Ewropeaidd Cymru eu hategu gan Gynrychiolaeth y Cynulliad ei hun, a fydd yn canolbwyntio ar:

ymdrin ag anghenion Cabinet y Cynulliad ac Aelodau eraill

cysylltiadau â Chynrychiolaeth Barhaol y Deyrnas Unedig a Chyngor y Gweinidogion.

7. Ar hyn o bryd mae Canolfan Ewropeaidd Cymru'n ymgynghori â'i aelodau ar ei Gynllun Busnes drafft. Bydd angen penderfynu'n fuan ynglþn ag aelodaeth y Cynulliad gan y bydd ganddo oblygiadau i gynnwys y Cynllun Busnes. Mae'n rhaid ymgynghori â'r aelodau presennol ynglþn ag aelodaeth y Cynulliad gan y bydd gofyn diwygio'r Memorandwm a'r Erthyglau Cymdeithasiad i adlewyrchu swyddogaeth y Cynulliad ar y Bwrdd.

**Protocol ar Fynediad Aelodau'r Cynulliad i Ganolfan Ewropeaidd Cymru**

8. Fel rheol gyffredinol rhagwelir y byddai CEC yn delio'n uniongyrchol gyda swyddogion yn hytrach na gwleidyddion. Byddai hyn yn cyfyngu ar y galw ar CEC, gan leihau'r angen am ehangu a byddai hyn yn cael ei adlewyrchu yn nhâl aelodaeth y Cynulliad.

9. Byddai Adran Ysgrifenyddol y Cabinet yn delio'n uniongyrchol â Chynrychiolaeth y Cynulliad ym Mrwsel yn y lle cyntaf. Bydd Cynrychiolaeth y Cynulliad yn trafod gyda CEC, a fydd yn gyfrifol am lawer o'r trefniadau o ran trefnu cyfarfodydd, paratoi cyfarwyddyd, trefnu cludiant a llety ym Mrwsel ar gyfer Ysgrifenyddion y Cynulliad.

10. Byddai gan Aelodau'r Cynulliad fynediad i safle CEC ar y we a Chyfeirlyfr Cyllido CEC. Byddai llyfrgell y Cynulliad yn gallu defnyddio CEC fel ffynhonnell wybodaeth i ymateb i ymholiadau penodol gan Aelodau.

**Cydymffurfio**

11. Mae'r Concordat ar Gyd-drefnu Materion Polisi yr Undeb Ewropeaidd yn darparu'r fframwaith polisi i'r Cynulliad sefydlu swyddfa ym Mrwsel i gynorthwyo perthynas uniongyrchol â llywodraethau rhanbarthol eraill a chyda sefydliadau'r Undeb Ewropeaidd.

**Goblygiadau Ariannol**

12. Bydd gofyn i'r Cynulliad dalu tâl aelodaeth os yw'n penderfynu ymuno â Chanolfan Ewropeaidd Cymru. Mae'r swm i'w drafod unwaith y bydd y math o wasanaeth sydd ei angen wedi ei gytuno. Mae'r gyllideb ddrafft dros dro a gyflwynwyd gerbron y Cynulliad ar 4 Tachwedd yn cynnig sefydlu llinell wariant Gwasanaethau Cynnal Ewropeaidd Amrywiol gyda

darpariaeth o £0.4M o 2000-01 ymlaen, a byddai rhai o’r adnoddau hyn yn cael eu defnyddio i gwrdd â chost aelodaeth y Cynulliad yn y Ganolfan. Mae union lefel y ffi yn amodol ar drafodaeth bellach. Ymgynghorwyd â’r Adran Cynllunio Ariannol ac mae’n fodlon â’r agweddau ariannol.

**Themâu Trawsbynciol**

13. Trwy ymuno â Chanolfan Ewropeaidd Cymru bydd y Cynulliad yn dangos ei ymrwymiad i weithio mewn partneriaeth â chyrff Cymreig eraill ar faterion Ewropeaidd.

**Pwynt Cyswllt**

14. Adran Materion Ewropeaidd